TROSEDDAU BYWYD GWYLLT A CHEFN GWLAD CYMRU
WALES WILDLIFE & RURAL CRIME

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Strategaeth Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru 2025-2028





FREE RURAL CRIME
PREVENTION VISIT AND
PROPERTY MARKING

Mae ymddiriedaeth a chydberthnasau rhwng yr heddlu a'r gymuned ffermio wedi gwella mewn sawl sir... Mae presenoldeb swyddogion yr heddlu mewn marchnadoedd da byw wedi'i groesawu, gan gynyddu eu hygyrchedd ac ennyn hyder y gymuned ffermio. Mae ymgysylltu'n barhaus â'r gymuned wledig yn hanfodol er mwyn cynnal ac atgyfnerthu'r ymddiriedaeth hon[1]

# Rhagair

Cafwyd ymateb cadarnhaol i Strategaeth Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad ar y cyd gyntaf yr Heddlu a Llywodraeth Cymru (2023 – 2025) ymhlith rhanddeiliaid ac ymarferwyr fel ei gilydd, ac felly rydym yn falch o adeiladu ar y gwaith hwnnw drwy gyhoeddi'r Strategaeth olynol tair blynedd newydd hon.

Mae troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad yn faterion sydd o bwys cenedlaethol a rhyngwladol. Yn ogystal ag effeithio ar bwysigrwydd cynhenid rhywogaethau, cynefinoedd a phobl, mae'r troseddau hyn yn effeithio ar faint y cysylltiadau ag ymddygiadau niweidiol eraill, gan gynnwys troseddau cyfundrefnol difrifol.

Rydym yn hyderus mai cydweithio yw'r dull gweithredu cywir i Gymru – a hynny rhwng Llywodraeth Cymru a'r heddlu, a gyda'n partneriaid eraill yn y sector statudol a'r sector cyrff anllywodraethol. Hebddynt, ni fyddai llawer o'r gwaith hwn yn bosibl. Felly, mae cynnwys dwsinau o sefydliadau ar draws y meysydd â blaenoriaeth yn allweddol i sicrhau llwyddiant o hyd.

Fel y gellid ei ddisgwyl, mae gwersi allweddol wedi'u dysgu o'r Strategaeth dwy flynedd gyntaf, ac mae'r gwersi hyn, ochr yn ochr â chanlyniadau'r ymgynghoriad â rhanddeiliaid, wedi llywio'r broses o ddatblygu'r dull strategol newydd hwn. Mae'n amlwg bod rôl arloesol y Cydgysylltydd Troseddau Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt, sydd bellach yn ei rôl ers bron pum mlynedd, yn parhau i fod yn hollbwysig, ac felly, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo cyllid am dair blynedd arall, i gyd-fynd â chyfnod y Strategaeth hon.

Mae'r ymrwymiad i gydblethu â strategaethau troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad ar lefel y DU yn parhau er mwyn i ni allu bod yn effro i dueddiadau cenedlaethol a rhyngwladol, ac i sicrhau bod canlyniadau allweddol yn cael eu rhannu i'r naill gyfeiriad a'r llall. Fodd bynnag, rydym hefyd yn parhau i fod yn uchelgeisiol o ran yr hyn y gellir ei gyflawni drwy gydweithio ac ymateb i'r materion sy'n benodol ac yn briodol i Gymru, fel bod modd amddiffyn ein bywyd gwyllt, ein hamgylchedd a'n cymunedau gwledig yn well.



**Nigel Harrison**
Dirprwy Brif Gwnstabl
Heddlu Gogledd Cymru
Arweinydd NPCC ar gyfer
Troseddau Bywyd Gwyllt
a Chefn Gwlad



**Huw Irranca-Davies MS**
Dirprwy Brif Weinidog Cymru
ac Ysgrifennydd y Cabinet
dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig
Llywodraeth Cymru

1 Ymgynghoriad â rhanddeiliaid Mawrth – Ebrill 2025

# Cyflwyniad

Mae canlyniadau'r arolwg rhanddeiliaid a gynhaliwyd yn ystod y broses o ddatblygu'r Strategaeth hon yn dangos bod hyder y cyhoedd mewn plismona wedi gwella mewn sawl ardal dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, mae heriau yn bodoli o hyd, gan gynnwys amrywiadau o ran ymateb yr heddlu, yn ôl ardal a mater. Mae hyn yn pwysleisio'r angen am rôl y Cydgysylltydd ynghyd â ffocws ar gydgysylltu a darparu gwybodaeth a hyfforddiant ar draws ardaloedd y pedwar heddlu er mwyn cefnogi gwelliannau lle bo modd.

Mae NFU Mutual yn nodi bod cost hawliadau troseddau cefn gwlad yng Nghymru wedi cynyddu o £2.4m yn 2023 i £2.8m yn 2024, ond ei bod yn dal i fod yn gymharol isel o gymharu ag ardaloedd o Loegr. Gellir priodoli'r cynnydd hwn i grwpiau troseddau cyfundrefnol sy'n targedu buarthau fferm a chaeau, wedi'u hysgogi gan chwyddiant uchel a marchnadoedd ailwerthu parod yng Nghymru a thramor ar gyfer eitemau gwerth uchel fel cerbydau sy'n addas ar gyfer pob math o dir a dyfeisiau GPS. Mae'r adroddiad yn pwysleisio effeithiau difrifol troseddau cefn gwlad, a nododd 96% o asiantau MFU Mutual a arolygwyd yr effeithiau negyddol ar lesiant meddyliol ffermwyr. Mae bygythiad parhaus troseddau, ynghyd â phwysau economaidd, wedi cynyddu lefelau straen mewn cymunedau gwledig.

Bu'n flaenoriaeth i leihau pob math o drosedd bywyd gwyllt a chefn gwlad, gan wella partneriaethau gwledig a diogelwch cymunedol drwy strwythur o chwe grŵp blaenoriaeth sy'n dod â'r heddlu a sefydliadau partner ynghyd – a bydd hynny'n parhau. Mae ein dull gweithredu yng Nghymru yn cydnabod anawsterau iechyd meddwl yn ein cymunedau gwledig, ac yn hynny o beth, mae'n cynnwys ffocws strategol penodol ac unigryw ar gysylltu awdurdodau gorfodi a gwasanaethau cymorth. Y nod yw sicrhau bod yr ymatebwyr hynny sy'n delio ag argyfwng sy'n mynd rhagddo mewn sefyllfa well i gael y cymorth cywir, boed hynny ym maes iechyd meddwl, atal hunanladdiad neu gam-drin domestig. Er bod hyn wedi'i groesawu gan randdeiliaid yn yr ymgynghoriad ar y cyfan, mae rhywfaint o bryder o hyd ynglŷn â'i gynnwys yn y Strategaeth. I gydnabod hyn, mae'r grŵp wedi'i ailenwi'n Rhwydwaith Gwasanaethau Cymorth Gwledig er mwyn adlewyrchu ei nodau strategol yn well.

Ymhlith newidiadau eraill o wersi a ddysgwyd ac ymatebion i'r ymgynghoriad mae tynnu grŵp Goruchwylwyr Gwledig Heddlu Cymru o'r blaenoriaethau strategol. Er y bydd y grŵp gwerthfawr hwn yn bodoli o hyd, fel fforwm ar gyfer materion gweithredol a rheoli, bydd yn dod yn rhan o'r strwythur llywodraethu. Yn y cyfamser, bydd troseddau yn ymwneud â threftadaeth yn dod yn grŵp blaenoriaeth llawn, sy'n adlewyrchu'r tueddiadau sy'n dod i'r amlwg a nifer y partneriaid sy'n cymryd rhan ac yn cyfrannu, a'r gobaith yw y bydd hyn yn arwain at ragor o fentrau i helpu i fynd i'r afael â'r troseddau hyn.

Erys rhai rhanddeiliaid yn gadarn o blaid y meysydd ehangach â blaenoriaeth sy'n unigryw i Strategaeth Cymru, ond mae rhai yn dal i alw am flaenoriaethau culach a/neu fwy penodol. Fodd bynnag, gallai dull gweithredu o'r fath ddifreinio rhai o'r rhanddeiliaid pwysig a all, ar hyn o bryd, gyfrannu mwy neu lai yn unol â natur y gwaith y mae'r grŵp yn ymgymryd ag ef. Y gwir amdani yw na ellir cael grŵp blaenoriaeth ar gyfer pob rhywogaeth a/neu weithgarwch troseddol penodol gyda'r adnoddau sydd ar gael. Drwy grwpio materion gyda'i gilydd, gellir rhannu adnoddau, gwybodaeth a gweithgareddau. Mae hyblygrwydd hefyd sy'n galluogi pob grŵp i barhau'n ystwyth ac ymateb yn briodol i batrymau a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg o ran troseddau.

> Rwy'n teimlo'n gryf iawn am gynnal y ffocws eang hwn – mae'n osgoi gweithio mewn seilo ac yn sicrhau ein bod yn cydweithio'n effeithlon ac yn dysgu am rywogaethau, cynefinoedd a sectorau gwahanol[2]

2 Ymgynghoriad â rhanddeiliaid Mawrth – Ebrill 2025




> Mae'r cyfarfodydd wedi atgyfnerthu [ein] cydberthnasau â'r heddlu, sefydliadau eraill yn y trydydd sector, a chymunedau ffermio. Mae wedi hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth, datrys problemau ar y cyd, a dealltwriaeth well o droseddau cefn gwlad[3]

Ein cenhadaeth yw darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'r rhai sy'n byw ac yn gweithio yng nghefn gwlad Cymru, gan sicrhau ein bod yn cynnal ein cynnyrch ffermio sy'n enwog yn fyd–eang, ein diwylliant hanesyddol cyfoethog, a'n cynefinoedd bywyd gwyllt, nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.



Gall troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad ddigwydd ar sawl ffurf, gan gynnwys achosion o ddwyn cyfarpar amaethyddol, troseddau da byw, a difa cynefinoedd bywyd gwyllt. Mae'r heddlu a'n hasiantaethau partner yn chwarae rôl hanfodol wrth atal y troseddau hyn rhag digwydd a dwyn y rhai sy'n gyfrifol i gyfrif.

Mae dull cydgysylltiedig a strategol yn hanfodol er mwyn sicrhau llwyddiant a chynaliadwyedd. Mae'r heddlu a'n hasiantaethau partner yn rhan annatod o'r cynnydd hwn, ac maent yn hwyluso dull cyfunol o ddatrys problemau drwy ddefnyddio gwybodaeth a phrofiad arbenigol ledled Cymru a thu hwnt.

Mae'r Strategaeth hon, sy'n gyson â Strategaeth wledig UK NPCC, yn rhoi canllawiau a chymorth clir i'r rhai sy'n mynd i'r afael â throseddau cefn gwlad. Ei nod yw lleihau nifer y troseddau drwy ddull cydgysylltiedig a phroffesiynol.

Yn ystod cyfnod y strategaeth ddiwethaf, mae datblygiadau technolegol, hyfforddiant gwell i swyddogion yr heddlu yng nghefn gwlad, a mwy o gydgysylltu â chymunedau gwledig wedi gwella'r gallu i ganfod achosion a mynd i'r afael â nhw yng Nghymru yn sylweddol. Mae prosiect 'Dangos y Drws i Drosedd' a mentrau atal troseddau yng Nghymru yn ddull cydweithredol a rhagweithiol o leihau troseddau, manteisio ar dechnoleg, ymgysylltu â chymunedau a meithrin partneriaethau strategol er mwyn creu cymunedau mwy diogel a lleihau nifer troseddau meddiangar ledled y wlad.

Mae ymosodiadau ar dda byw yn parhau i fod yn broblem sylweddol i'n cymunedau ffermio yng Nghymru, ond mae nifer o fentrau yn eu galluogi i frwydro'n ôl. Mae cyfraith newydd yn mynd drwy Senedd y DU ac mae prosiect i ddadansoddi a chymharu DNA rhwng anifail yr ymosodwyd arno a'r ci/cŵn dan amheuaeth hefyd ar waith. Mae Cwrs Perchnogaeth Cŵn Gyfrifol, mewn cydweithrediad ag elusen Blue Cross, yn cael ei dreialu yng Nghymru fel y cyntaf am y tro cyntaf yn y DU, gan roi'r cyfle i berchnogion ddysgu sgiliau a gwybodaeth newydd i atal ymosodiadau pellach.

Mae'n rhaid inni fod yn greadigol ac yn benodol er mwyn deall y problemau yn y lle cyntaf, ac yna geisio eu hateb er mwyn sicrhau bod ein cymunedau gwledig yn cael eu cefnogi a'u hamddiffyn yn y ffordd orau posibl.

Fel Cydgysylltydd Troseddau Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt Cymru, rwy'n falch o arwain rhaglen sy'n cyfrannu at lwyddiant ein cymunedau gwledig a'u twf yn y dyfodol. Ein nod yw lleihau risg ac ofn troseddau, gan gynnal ein bywyd gwyllt, ein treftadaeth a'n cynefinoedd eiconig.

**Rob Taylor QPM, Cydgysylltydd Troseddau Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt Cymru**

# Datblygu Strategaeth

Wrth ymgymryd â'r gwaith o dan y Strategaeth flaenorol, bu pwyslais ar ddatblygu'n barhaus gyda'r nod o sicrhau'r effaith fwyaf posibl a'r siawns gorau o lwyddo, gan ragweld strategaethau ar gyfer y dyfodol ar yr un pryd. Rydym wedi annog adborth gan bartneriaid y rhaglen, a byddwn yn parhau i wneud hynny, gan groesawu her adeiladol yn enwedig lle y cydnabyddir bod pwysau o ran adnoddau a chwmpas – i'r rhai sy'n ymwneud â chyflawni.

Ategodd adroddiad Rhaglen Gydgysylltu Troseddau Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt: Damcaniaeth Newid , a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2023, y cwestiynau yn yr ymgynghoriad a anfonwyd at holl randdeiliaid y rhaglen ym mis Mawrth 2025. Mae'r adroddiad, ynghyd â chanlyniadau'r ymgynghoriad â rhanddeiliaid, a gwaith ymchwil diweddar ar droseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad yng Nghymru, yn dail i'r Strategaeth newydd hon.

4 https://shorturl.at/BQ7ln

# Canlyniadau'r Ymgynghoriad ar Droseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad

Cyhoeddwyd ymgynghoriad wedi'i dargedu ym mis Mawrth 2025 i bob partner sydd wedi cymryd rhan (ar unrhyw lefel) yn y rhaglen. Cafwyd ymatebion yn uniongyrchol gan swyddogion yr heddlu sy'n ymwneud â throseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, cyrff statudol, ac amrywiaeth eang o gyrff anllywodraethol sy'n cynrychioli dioddefwyr troseddau a'r rhai sy'n gweithio yn yr amgylchedd a/neu gydag anifeiliaid.

Nododd 73% (o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn ar fanteision a heriau) fanteision y Strategaeth flaenorol, a rhoddodd pob ymatebydd syniadau am ffyrdd o ddatblygu'r rhaglen ymhellach fel ei fod yn fwy penodol ac effeithiol byth. Nododd nifer o ymatebwyr y byddai'n well ganddynt weld y rhaglen yn canolbwyntio ar gyfres gulach o faterion, ond cydnabu eraill werth sylweddol ffocws eang y grwpiau blaenoriaeth ffocws o ran sicrhau cydweithio a chydgysylltu effeithlon. Yn y Strategaeth hon, mae'r grwpiau blaenoriaeth wedi'u cadw'n eang er mwyn sicrhau gwerth cydweithio, a galluogi sefydliadau i dargedu adnoddau cyfyngedig yn fwy effeithiol.

Ymateb cymysg a gafwyd ar hyder mewn plismona, a nododd nifer o ymatebwyr farn bersonol neu sefydliadol yn hytrach na safbwynt cymdeithas ehangach. Mae gwerth i ddeall y ddau, yn enwedig pan fo gan sefydliadau fwy o aelodau i geisio barn ganddynt. Hyd yn oed lle na chafwyd ymatebion mor gadarnhaol, cydnabuwyd yn gyffredinol fod gwasanaeth yr heddlu yn wynebu blaenoriaethau croes a phwysau o ran adnoddau.

Y cwestiwn ar y blaenoriaethau arfaethedig a ddenodd y nifer mwyaf o ymatebion, ac er nad yw'n wir am bawb, ymddengys fod y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid yn gwerthfawrogi mai grwpiau blaenoriaeth â meysydd ffocws ehangach yw'r dewis gorau, ar y cyfan, i Gymru. Awgrymwyd nifer o newidiadau i'r pwyslais canfyddedig ar faterion yn y meysydd â blaenoriaeth, ac awgrymwyd y dylid hepgor, cyfuno neu gyflwyno blaenoriaethau penodol, ond roedd y cynigion hyn yn amrywio ac yn aml yn ddryslyd. Rydym wedi dewis cadw'r gyfres eang o grwpiau blaenoriaeth, gyda'r newidiadau cymharol fach a ddisgrifir uchod.

> Mae rôl Cydgysylltydd Troseddau Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt Cymru wedi bod yn werthfawr wrth helpu i atgyfnerthu'r cysylltiad hwnnw [â swyddogion yr heddlu sy'n ymwneud â throseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad] mewn ffordd gadarnhaol ac adeiladol[5]

Nododd 81% (o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn am gysylltiad) lefel o ryngweithio â swyddogion yr heddlu sy'n ymwneud â throseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad, a dywedodd y mwyafrif helaeth fod hyn yn gadarnhaol, ond nodwyd hefyd amrywiadau rhwng ardaloedd yr heddlu. Erys yr awydd i weithio mewn partneriaeth yn gryf, a chafwyd cynigion o gymorth a hyfforddiant gan bartneriaid y gall grwpiau blaenoriaeth fanteisio arnynt dros gyfnod y Strategaeth. Yn yr un modd, ymhlith cynigion eraill – gan bob ymatebydd â'r modd – roedd arbenigedd a gwybodaeth, ac roedd yr ymgynghoriad yn gyfle amserol i atgoffa grwpiau blaenoriaeth i ddefnyddio unrhyw adnoddau heb eu cyffwrdd. Gall y grwpiau blaenoriaeth ddefnyddio'r manylion a roddwyd gan ymatebwyr, gan gynnwys awgrymiadau am randdeiliaid ychwanegol y gellid ymgysylltu â nhw.

O blith y rhai a ymatebodd i gwestiwn am sianeli cyfathrebu, gallai bron pob un ohonynt gynnig trafodaeth ar ddefnyddio eu cyfryngau cymdeithasol, cylchlythyrau a chylchgronau i rannu gwybodaeth bwysig o leiaf. Gallai hyn alluogi mynediad i filoedd o bobl, a lle bo'r cronfeydd data hynny yn gallu dewis preswylwyr gwledig yn benodol, gallai hyn fod o fydd i unrhyw elfen codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o waith y grwpiau blaenoriaeth.

5 Ymgynghoriad â rhanddeiliaid Mawrth – Ebrill 2025

# Nod Strategol

Atgyfnerthu a datblygu ymateb cydgysylltiedig ac effeithiol i droseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad yng Nghymru ymhellach, ymateb sy'n ategu Strategaeth y DU ond sydd wedi'i deilwra at anghenion Cymru; cefnogi'r heddlu a'i bartneriaid i atal troseddau, mynd ar drywydd y rhai sy'n eu cyflawni, ac amddiffyn y rhai y maent yn effeithio arnynt fwyaf. Y cymunedau, yr unigolion, y cynefinoedd a'r bywyd gwyllt sy'n wynebu'r risg fwyaf o niwed fydd y ffocws canolog.

## Ffactorau Galluogi Strategol

### Gwell dulliau cydgysylltu

Gwella dulliau cydgysylltu ac effeithlonrwydd wrth fynd i'r afael â throseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad; mae ein hamcanion strategol yn cynnwys cuddwybodaeth ganolog, cytundebau rhannu data cymesur, a datblygu trefniadau cydweithio trawsffiniol.

### Tarfu ar rwydweithiau troseddol sy'n ymwneud â throseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad, a'u chwalu

Defnyddio cuddwybodaeth a thactegau plismona blaengar i nodi a thargedu rhwydweithiau troseddol gwerth uchel, cynnal mentrau ar y cyd ledled Cymru i darfu ar weithrediadau, a rhoi camau gorfodi wedi'u targedu ar waith.

### Lleihau Risgiau a Gwendidau

Byddwn yn lleihau gwendidau drwy ddiogelu'r rhai mwyaf agored i niwed, yn codi proffil troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad drwy ddefnyddio ystadegau ar droseddau sydd ar gael, ac yn buddsoddi mewn cydberthnasau â sefydliadau cymdeithasol sifil proffesiynol i gyflawni ein nodau strategol.

### Gwella'r Gallu i Atal a Chanfod

Byddwn yn canolbwyntio ar atal troseddau, gwybodaeth i'r cyhoedd, defnyddio tactegau tarfu, a darparu hyfforddiant arbenigol i atal a mynd i'r afael â throseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad.

### Sicrhau erlyniadau llwyddiannus a dal troseddwyr i gyfrif

Byddwn yn gweithio i atgyfnerthu achosion erlyn, drwy helpu i wella'r broses o gasglu tystiolaeth a'i dadansoddi, gwella sgiliau a gwybodaeth swyddogion, gweithio'n agosach gyda chysylltiadau arbenigol yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron, a dadlau dros gosbau llymach ar gyfer troseddau cefn gwlad.

### Hyrwyddo diwylliant o barch a stiwardiaeth ar gyfer yr amgylchedd naturiol

Byddwn yn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o effeithiau troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad, yn cynnwys cymunedau mewn gwaith atal drwy fentrau addysg ac atal troseddau, yn cydweithio ag asiantaethau'r llywodraeth ac asiantaethau iechyd y cyhoedd, ac yn hyrwyddo'r defnydd cyfrifol o leoedd naturiol er mwyn cefnogi cymunedau lleol a lleihau troseddau.

### Llywodraethu, Moeseg a Phroffesiynoldeb

Byddwn yn cynnal trefniadau llywodraethu, yn darparu gwerth, yn parhau i ganolbwyntio ar ddata ac yn cynnal ein proffesiynoldeb a'n cadernid.

### Meithrin Gwydnwch ar y Cyd

Byddwn yn canolbwyntio ar dechnoleg, perfformiad, lleihau galw, ac ymgysylltu â chymunedau er mwyn mynd i'r afael â throseddu bywyd gwyllt a chefn gwlad yn effeithiol.




# Cyflawni'r Strategaeth

Sefydlwyd y Grwpiau Blaenoriaeth o dan y Strategaeth flaenorol a bydd y rhain yn parhau ond gan ymgorffori'r newidiadau y cyfeiriwyd atynt eisoes i grŵp Goruchwylwyr Gwledig Heddlu Cymru, ailenwi Iechyd Meddwl/Cam–drin yn y Cartref yn Gwasanaethau Cymorth Rhwydweithio Gwledig a chyflwyno grŵp Troseddau yn Ymwneud â Threftadaeth.

Cynlluniwyd y Strategaeth hon i roi'r fframwaith a'r amcanion lefel uchel y disgwylir i'r grwpiau blaenoriaeth eu dilyn, ond mae gan bob grŵp yr ymreolaeth i ddiffinio paramedrau ei ffocws ymhellach yn ei Gylch Gorchwyl. Bydd disgwyl hefyd i bob grŵp lunio ei fetrigau mesuradwy a chyflawnadwy ei hun, gan ddefnyddio fframwaith y 4P a MoRILE[6], gan adrodd ar berfformiad bob chwarter drwy'r strwythur llywodraethu y cyfeirir ato yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.

## Y 4P yw:

### Paratoi

Paratoi ar gyfer pryd y gallai troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad gael eu cyflawni, gan eu hatal lle bo modd a lliniaru eu heffaith drwy ddefnyddio cuddwybodaeth, data a thechnoleg yn effeithlon.

### Atal

Atal pobl rhag cyflawni troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad drwy bartneriaethau effeithiol, y cyfryngau a chyfathrebu, ac ymgysylltu â'r cyhoedd.

### Mynd ar Drywydd

Mynd yn ddiflino ar drywydd troseddwyr gan ganolbwyntio'n benodol ar droseddwyr difrifol a chyfundrefnol, gan ddefnyddio ein partneriaid cyfiawnder troseddol i'w herlyn, a tharfu ar droseddwyr a'u hatal drwy dactegau gorfodi effeithiol.

### Amddiffyn

Amddiffyn cymunedau gwledig a bywyd gwyllt rhag effaith troseddau drwy ymdrech genedlaethol gydgysylltiedig, gan ddefnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael a chynyddu capasiti a gallu'r heddlu a phartneriaid.

6 Mae MoRILE yn brosiect cenedlaethol o brosesau a modelau blaenoriaethu risg i asiantaethau gorfodi eu defnyddio i feithrin dealltwriaeth well o risg


Blaenoriaethau 2025-2028
Troseddau yn ymwneud ag Adar
Troseddau ar Ffermydd
Mamaliaid a Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop
Cynefinoedd
Troseddau yn ymwneud â Threftadaeth
Gwasanaethau Cymorth Rhwydweithio Gwledig

# Trosolwg o'r Grwpiau Blaenoriaeth

## Troseddau yn ymwneud ag Adar

Mae troseddau yn ymwneud ag adar yn cynnwys gwenwyno, difa nythod, maglu, difrodi cynefinoedd, dwyn wyau, masnachu, a saethu anghyfreithlon. Mae'r troseddau hyn yn effeithio ar adar ysglyfaethus a trefol, yn ogystal ag adar arfordirol.

Mae'r grŵp yn nodi bygythiadau allweddol i adar yng Nghymru, gan gydweithio drwy weithrediadau'r heddlu, hyfforddi swyddogion, rhannu cuddwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd. Mae'r Cydgysylltydd hefyd yn aelod o Grŵp Erlid Adar Ysglyfaethus y DU.

Mae Ymgyrch Seabird Cymru, sy'n is-grŵp, yn mynd i'r afael â throseddau arfordirol, gan gynnwys aflonyddu ar famaliaid.

### Amcanion cyffredinol:

- Lleihau nifer y troseddau yn ymwneud ag adar yng Nghymru.
- Codi ymwybyddiaeth o droseddau yn ymwneud ag adar.
- Gwella hyfforddiant yr heddlu ac asiantaethau partner.

## Troseddau ar Ffermydd

Mae troseddau gwledig yng Nghymru yn effeithio ar ffermydd a chymunedau gwledig yn bennaf. Mae'r rhain yn cynnwys achosion o ddwyn peiriannu, offer, cerbydau, da byw, tanwydd a chŵn gwaith; achosion o gŵn yn ymosod ar dda byw; tanau bwriadol; bwrgleriaeth; a throseddau yn ymwneud â cheffylau.

Mae'r grŵp yn cydgysylltu camau gweithredu ac yn codi ymwybyddiaeth ymhlith yr heddlu ac undebau'r ffermwyr. Mae troseddau ar ffermydd yn effeithio ar fywoliaeth pobl a lefelau cynhyrchu, gan olygu bod gwaith atal a grymuso'r heddlu yn hanfodol. Mae codi ymwybyddiaeth, atal troseddau, a rhoi mwy o bwerau i'r heddlu yn amcanion allweddol. Mae hyfforddi swyddogion yr heddlu yn hanfodol er mwyn sicrhau eu bod yn deall materion sy'n gysylltiedig â ffermydd. Mae dros 60 o swyddogion yr heddlu yng Nghymru wedi cwblhau hyfforddiant arbenigol.

### Amcanion cyffredinol:

- Lleihau troseddau sy'n gysylltiedig â ffermydd.
- Darparu hyfforddiant arbenigol i swyddogion yr heddlu a phartneriaid.
- Ymgysylltu'n uniongyrchol â chymunedau ffermio ac asiantaethau cysylltiedig.
- Ceisio newid y gyfraith, lle y bo'n briodol.

## Cynefinoedd

Mae cynefinoedd Cymru yn cefnogi ecosystemau a bywyd gwyllt, sy'n golygu bod atal troseddau mewn ardaloedd gwledig yn bwysig er mwyn eu cynnal. Mae troseddau yn cynnwys tipio anghyfreithlon, gyrru anghyfreithlon oddi ar y ffordd, cyflwyno planhigion a rhywogaethau goresgynnol, a difrod i ardaloedd SoDdGA (Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig). Nod y grŵp yw nodi materion ledled Cymru drwy gydweithio ag asiantaethau partner ac arbenigwyr i fynd i'r afael â throseddau yn effeithiol. Mae addysg, atal a gorfodi yn elfennau hanfodol o unrhyw gynllun gweithredu.

Mae Ymgyrch Taurus Cymru – sy'n is-grŵp, yn ymdrech gydweithredol i fynd i'r afael ag achosion o yrru anghyfreithlon oddi ar y ffordd ledled Cymru, yn hanfodol i atal troseddau rhag lledaenu a gwasgaru o un ardal i un arall. Mae codi ymwybyddiaeth o'r difrod a achosir a rhoi camau gorfodi wedi'u targedu ar waith yn dactegau allweddol i atal troseddau o'r fath.

### Amcanion cyffredinol:

- Cydgysylltu ag asiantaethau partner allweddol i sicrhau arferion gweithio agosach a mwy effeithiol.
- Meithrin dealltwriaeth well o effaith troseddau penodol ar gynefinoedd.
- Defnyddio mesurau rhagweithiol drwy'r heddlu a phartneriaid i atal a chanfod troseddau drwy weithrediadau ac addysg.

## Troseddau yn ymwneud â Threftadaeth

Fel blaenoriaeth graidd newydd, bydd y grŵp yn gweithio i fynd i'r afael â throseddau yn ymwneud â threftadaeth yng Nghymru gan ganolbwyntio ar atal difrod i safleoedd treftadaeth drwy drefniadau cydweithio rhwng yr heddlu, asiantaethau partner a Cadw. Mae cynyddu gwybodaeth swyddogion yr heddlu yn allweddol yn ogystal ag addysgu'r cyhoedd ar amddiffyn ein treftadaeth.

### Amcanion cyffredinol:

- Datblygu rhaglenni hyfforddi ar gyfer swyddogion yr heddlu a chadetiaid gwledig i'w galluogi i atal ac ymateb i droseddau yn ymwneud â threftadaeth.
- Atgyfnerthu partneriaethau a gwella'r cydgysylltu ymhlith yr heddlu, Cadw ac asiantaethau eraill.
- Cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o waith gwarchod treftadaeth drwy ymgyrchoedd addysgol ac allgymorth cymunedol.




## Mamaliaid a Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop[7]

Mae Cymru yn wynebu amrywiaeth o droseddau bywyd gwyllt sy'n bygwth rhywogaethau, fel troseddau yn ymwneud ag ystlumod, potsio, hela anghyfreithlon, a throseddau yn ymwneud â moch daear. Mae gweithgareddau troseddol hefyd yn effeithio ar fflora a ffawna a warchodir o dan CITES neu gyfraith Ewrop.

Mae grŵp cydweithredol o swyddogion yr heddlu a phartneriaid yn gweithio i nodi, atal a chymryd camau gorfodi yn erbyn y troseddau hyn. Maent yn cyfuno gwybodaeth a phrofiad i fynd i'r afael â materion a rhannu arferion gorau ledled y DU. Mae cydweithio ag awdurdodau lleol yn hanfodol i atal gwaith cynllunio heb ganiatâd sy'n niweidio rhywogaethau.

### Amcanion cyffredinol:

- Darparu ymateb uniongyrchol a phroffesiynol i droseddau yn ymwneud â mamaliaid a rhywogaethau a warchodir gan Ewrop.
- Gwella gwybodaeth ac arferion gorau ar gyfer delio â throseddau yn ymwneud â rhywogaethau.
- Defnyddio gwybodaeth asiantaethau arbenigol i gynorthwyo ymchwiliadau ac erlyniadau.

## Gwasanaethau Cymorth Rhwydweithio Gwledig

Mae'r grŵp hwn, sydd â'r nod o gysylltu â chymorth cam–drin domestig, iechyd meddwl ac atal hunanladdiad, wedi'i ailenwi er mwyn adlewyrchu ei brif ffocws. Mae pob un o'r meysydd pwnc hyn yn bwysig yn ei rinwedd ei hun ac mae gwaith hanfodol yn cael ei wneud gan yr heddlu, asiantaethau penodedig a phartneriaid yng Nghymru. Mae'r grŵp blaenoriaeth yn dwyn ynghyd sefydliadau allweddol a swyddogion gwledig yr heddlu, sef y rhai cyntaf i ymgysylltu â dioddefwyr neu gleifion mewn lleoliadau gwledig yn aml. Mae'r grŵp yn sicrhau cydgysylltu a dull gweithredu unedig sydd ei angen i ddarparu hyfforddiant, gwybodaeth a chymorth arbenigol. Nid yw'r materion hyn yn unigryw i amgylcheddau trefol; maent hefyd yn codi mewn cymunedau gwledig, lle mae'r amodau sy'n cyfrannu at broblemau a'r atebion i fynd i'r afael â nhw yn wahanol. Mae'r heddlu a'r asiantaethau sy'n ein cefnogi yn darparu gwasanaethau rheng flaen, gan gydweithio i gynnig gwasanaethau hanfodol, gwella dulliau atal, a chodi ymwybyddiaeth mewn cymunedau ffermio.


### Amcanion cyffredinol:

- Darparu hyfforddiant hanfodol i swyddogion yr heddlu ac asiantaethau partner i'w galluogi i reoli argyfyngau mewn ardaloedd gwledig.
- Gwella gwybodaeth yn yr heddlu ac asiantaethau partner mewn perthynas â'r adnoddau a'r cymorth sydd ar gael.
- Meithrin dealltwriaeth o'r amgylchedd gwledig, y pwysau a wynebir yn y diwydiant ffermio, a'r cymorth sydd ar gael.

7 Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop

# Strwythur Llywodraethu Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru

Wrth gyflwyno Strategaeth newydd daw cyfle i ddiwygio'r strwythur llywodraethu er mwyn rhoi mwy o eglurder ynghylch y ffordd y caiff y trefniadau o ran trosolwg ac atebolrwydd eu harfer a sut mae pob lefel yn rhyngweithio â'i gilydd.




Arweinydd portffolio Troseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad UK NPCC yw Dirprwy Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru, Nigel Harrison. Er nad yw plismona a'r system cyfiawnder troseddol wedi'u datganoli, mae'r amodau sy'n arwain at droseddau; eu heffeithiau ar bobl, yr amgylchedd ac anifeiliaid; yn ogystal â rhannau sylweddol o'r gyfraith – er enghraifft bywyd gwyllt – yn rhan o bortffolio Dirprwy Brif Weinidog Cymru ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Huw Irranca-Davies AS.

[8] Yr Uned Troseddau Bywyd Gwyllt Genedlaethol a'r Uned Troseddau Gwledig Genedlaethol




Cysylltwch â: bywyd_gwyllt@llyw.cymru

## Dylid rhoi gwybod am droseddau drwy ffonio:

- ☑ 999 mewn argyfwng
- ☑ 101 ar gyfer digwyddiadau nad ydynt yn rhai brys
- ☑ Drwy ddefnyddio ffurflen ar wefan eich ardal heddlu leol
- ☑ Neu yn ddienw drwy Crimestoppers ar 0800 555 111

## I gael rhagor o wybodaeth:

www.llyw.cymru/grwp-troseddau-bywyd-gwyllt-chefn-gwlad-cymru

www.nationalruralcrimenetwork.net

www.nwcu.police.uk

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52910.
ISBN Digidol: 978-1-80633-359-2